



**DIWYLLIANT**

.....



## BETH YW LLES DIWYLLIANNOL?



Mae'r nod Llesiant Cymru â diwylliant bywiog lle'r mae'r Gymraeg yn ffynnu a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn disgrifio Cymru fel:

“ Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden ”

Mae'r nod Llesiant Cymru sy'n fwy cyfartal yn disgrifio Cymru fel:

“ Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd) ”

Mae lles diwylliannol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn gan ei fod yn cwmpasu gwerthoedd, credoau a rennir, arferion, ymddygiad a hunaniaeth. Mae'r priodoleddau hyn sydd weithiau'n anniriaethol yn diffinio ac yn gwneud Castell-nedd Port Talbot (CNPT) y lle ydyw.





## BETH YDYM YN EI WYBOD AR HYN O BRYD AM GYFLWR LLES DIWYLLIANNOL YN CNPT?



Mae'r adran ganlynol yn rhoi dadansoddiad o'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod am gyflwr lles yn CNPT. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad yn cynnwys ffynonellau ymchwil, dangosyddion cenedlaethol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gwybodaeth arall am berfformiad, tystiolaeth a gasglwyd i lywio Cynllun Datblygu Lleol y cyngor ac asesiadau statudol/cenedlaethol/lleol eraill a gynhaliwyd.

Ar hyn o bryd, mae mesurau cyfyngedig ar gael ar lefel genedlaethol i gefnogi asesiad o les diwylliannol. Fodd bynnag, mae nifer o fesurau yn cael eu datblygu a byddant ar gael o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Gellir dadansoddi lles diwylliannol fel 6 is-thema:

- Y Celfyddydau a Threftadaeth
- Y Gymraeg
- Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol
- Gwirfoddoli
- Cymuned
- Crefydd

Mae gan y term "lles diwylliannol" amrywiaeth o ystyron ymhlith pobl sy'n byw yn CNPT. Pan ofynnwyd i bobl am ystyr lles diwylliannol, dyma'r geiriau a grybwyllwyd fwyaf (125 o ymatebwyr i'n harolwg ar-lein).



## PENAWDAU

---

• • • • •

- Roedd 35 o bobl yn fwyaf tebygol o feddwl am y celfyddydau, y theatr, llenyddiaeth, amgueddfeydd, sinema, ffilmiau, barddoniaeth a hanes.
- Crybwyllodd 29 o bobl dreftadaeth, iaith, traddodiadau a chredoau, arferion, Cymru/y Gymraeg.
- Crybwyllodd 17 o bobl chwaraeon a hamdden.
- Crybwyllodd 12 o bobl ddysgu ac addysg.

Pan ofynnwyd i bobl pa ddau beth a allai wella lefelau lles diwylliannol, dyma'r pethau a grybwyllwyd fwyaf (121 o ymatebwyr i'n harolwg ar-lein).

## PENAWDAU

---

• • • • •

- Crybwyllodd 24 o'r 121 o ymatebwyr brofi mwy o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg a chrybwyllodd 20 o 121 o ymatebwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.



## Y CELFYDDYDAU A THREFTADAETH

• • • • •

Pan ofynnwyd i bobl sy'n byw yn CNPT am ystyr lles diwylliannol, roedd 35 o'r 125 o ymatebwyr yn meddwl am y celfyddydau (crybwyllwyd y theatr, llenyddiaeth, amgueddfeydd, sinema, ffilmiau, barddoniaeth a hanes).

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15, roedd 59% o bobl sy'n byw yn CNPT wedi mynd i ddigwyddiad celfyddydol (2) yn ystod 2014-2015, sydd ychydig yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, sef 58%. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan bobl am beidio ag ymweld â digwyddiad celfyddydol oedd 'nad oedd ganddynt ddiddordeb yn y digwyddiad' (34%), wedi'i ddilyn gan 'mae'n anodd dod o hyd i'r amser i fynd' (27%).

Er mwyn cymharu hyn yn rhanbarthol, comisiynwyd trydydd arolwg o'r "Celfyddydau yng Nghymru" (3) gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2015 i ymchwilio i gysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau, ac agweddau'r cyhoedd tuag atynt, yng Nghymru.

Yn ôl y casgliadau ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru, mae pobl sy'n byw yn ne-orllewin Cymru'n fwy tebygol o gytuno bod y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn cyfoethogi ansawdd eu bywydau, fe'u hysbrydolir gan weithgareddau celfyddydol ac maent yn mwynhau cymryd rhan. Roedd mwy nag wyth o bob deg yn cytuno bod y celfyddydau a diwylliant yn gwneud Cymru'n lle mwy diddorol a bywiog i fyw ynddo ac y byddai pobl yn colli rhywbeth gwerthfawr petai gweithgareddau diwylliannol yn cael eu colli yn eu hardal. Mae ymchwil arall gan Gyngor y Celfyddydau wedi dangos gwerth cymryd rhan yn y celfyddydau i les.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae nifer o grwpiau a lleoliadau sy'n hyrwyddo ac yn cyflwyno gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, gan gynnwys y tair canolfan – Canolfan Celfyddydau Pontardawe, Theatr y Dywysoges Frenhinol a Neuadd Gwyn.



## CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE

---



Adeiladwyd Canolfan Celfyddydau Pontardawe'n wreiddiol ym 1908 fel Neuadd Gyhoeddus a Sefydliad. Mae'r ganolfan yn ceisio gwella'r cynnig diwylliannol yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy gyflwyno rhaglen gelfyddydol gytbwys, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Asiantaeth Ffilm Cymru. Yn 2014, cynhaliodd Lles Cymru asesiad lles i ystyried y rôl y mae lleoliadau a mannau arddangos Cyngor Celfyddydau Cymru'n ei chwarae wrth hyrwyddo lles unigol a chymunedol. Dywedodd un o'r bobl a holwyd yn yr asesiad uchod, "mae'r adeilad hwn (Canolfan Celfyddydau Pontardawe) yn rhan fawr iawn o'r gymuned. Mae un yn cyd-fynd â'r llall". Roedd un o ddefnyddwyr eraill Canolfan y Celfyddydau'n credu bod "prisiau tocynnau'n rhesymol iawn i'r ardal. Maent yn llawer rhatach na gweithgareddau eraill (fan hyn)." Yn ystod yr asesiad, roedd cyfranogwyr yn awyddus iawn i fynegi'r effaith gadarnhaol yr oedd ymweliadau â chanolfannau a lleoliadau'r celfyddydau yn eu cael ar eu "hiechyd" yn yr ystyr ehangaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i gyllidebau llai, mae'r awdurdod lleol wedi lleihau cyllid ar gyfer y celfyddydau, gan arwain at gollir y Tim Celfyddydau Cymunedol a'r Tim Digwyddiadau Arbennig. Ceir enghreifftiau lle mae rhai o'r gweithgareddau a drefnwyd gynt gan y timau hyn wedi gallu parhau â chefnogaeth a chyfranogaeth leol, e.e. gorymdeithiau Siôn Corn yng Nghastell-nedd a Phontardawe. Yn ogystal, lle mae lleihau cyllidebau wedi effeithio ar wasanaethau eraill yr awdurdod lleol, e.e. cau canolfannau dydd lleol i oedolion ag anawsterau dysgu, creodd Canolfan y Celfyddydau sesiynau penodol er mwyn galluogi'r grwpiau i barhau i gwrdd â'i gilydd yn rheolaidd.

Mae'n ddiddorol nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru'n cael llai o geisiadau gan unigolion a grwpiau yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer cyllid i alluogi gweithgareddau i gael eu cynnal nag unrhyw ardal arall yng Nghymru.

## THEATR Y DWYWSOGES FRENHINOL



Mae Theatr y Dywysoges Frenhinol yng nghanol Port Talbot ac fe'i hagogwyd ym 1996. Mae'r theatr yn cynnig profiadau theatr fforddiadwy o safon i bobl Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn dod â refeniw i'r ardal drwy ddenu ymwelwyr o'r tu allan i'r fwrdeistref sirol.

Mae tri math penodol o weithgaredd:

- Rhaglen theatr – sioeau proffesiynol sy'n cael eu comisiynu gan y theatr.
- Digwyddiadau/sioeau llogi preifat – cyfleusterau sydd ar gael i grwpiau cymunedol a busnesau a sefydliadau lleol i gynnal cynrychiadau amatur, cynadleddau a seminarau.
- Llogi mewnol – ar gyfer cynadleddau a seminarau

## NEUADD GWYN




Mae Neuadd Gwyn yng nghanol tref Castell-nedd ac mae wedi bod yn rhan annatod o hanes Castell-nedd ers iddi gael ei hadeiladu ym 1887 a'i hailagor ym mis Mawrth 2012 ar ôl gwaith adnewyddu helaeth.

Mae'r neuadd ar agor saith niwrnod yr wythnos ac mae ganddi theatr â 393 o seddi sy'n cynnig rhaglen amrywiol, gan gynnwys cerddoriaeth at ddant pawb, theatr, sioeau i blant, theatr awyrol a dawnsio. Caiff hefyd ei defnyddio'n rheolaidd fel sinema dangosiad cyntaf sy'n dangos y ffilmiau diweddaraf ar ei phrif sgrîn yn ogystal â dangos y Theatr Genedlaethol yn Fyw a Bale'r Bolshoi, digwyddiadau sy'n hynod boblogaidd. Mae'r pod yn cynnig sgrîn sinema ddynodedig â 73 o seddi mewn amgylchedd moethus ac agos. Cynhelir amrywiaeth eang o ddsbarthiadau dawns a drama yn y stiwdio ddawns ddynodedig olau, fawr.

Er nad oes gennym ffigurau ar gyfer nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghastell-nedd Port Talbot, na nifer yr ymwelwyr â'r ardal, mae'r canlynol yn darparu crynodeb o'r ymwelwyr â'r 3 lleoliad allweddol sy'n hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dengys y crynodeb gynnydd graddol yn y niferoedd a aeth i'r lleoliadau hynny yn ystod blynyddoedd ariannol 2013/2014, 2014/2015 a 2015/2016.

Canrannau presenoldeb yn y tair prif ganolfan



## GWYLIAU A DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

---

• • • • •

Yn ogystal â'r tair prif ganolfan sy'n cyflwyno gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn CNPT, mae nifer y gwyliau a digwyddiadau cymunedol a gynhelir wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd, a ddechreuodd yn 2009; ers hynny mae wedi sefydlu'i hun yn un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr y dref. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ŵyl wedi amlygu'r amrywiaeth o gynnyrch Cymreig o safon sydd ar gael yn lleol, gan ganolbwyntio ar yr amrywiaeth o nwyddau sydd ar gael gan gyflenwyr arobryn ym marchnad Fictoraidd y dref a'r ardal gyfagos. Mae'r ŵyl yn ddathliad go iawn o gynnyrch lleol ac awyrgylch tref farchnad hanesyddol Castell-nedd.

Mae Ffair Fedi Castell-nedd yn enghraifft arall – digwyddiad awyr agored hanesyddol blynyddol yng nghanol Castell-nedd. Mae'n denu'r tyrfaoedd o bell ac agos ac fe'i cydnabyddir fel y bedwaredd ffair fasnachu siartredig fwyaf yn y DU. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i gynnal yng Nghastell-nedd ers cannoedd o flynyddoedd ac mae'n boblogaidd iawn ar draws yr ardal. Mae'r ffair gyfoes gyda'i stondinau wedi'u gosod ar hyd y strydoedd a'i reidiau ffair bywiog yn wahanol iawn i'r ffeiriau gwreiddiol 700 mlynedd yn ôl. Mae masnachwyr o'r DU, ac Ewrop yn ddiweddar, yn mynd i'r digwyddiad pedwar diwrnod hwn.

## CERDDORIAETH

---

• • • • •

Mae nifer o gorau yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n amrywio o gorau meibion i gorau menywod, Cymraeg a chymysg. Ceir hefyd nifer o fandiau sy'n perfformio'n fyw.

## DAWNS A DRAMA

---

• • • • •

Ceir nifer o grwpiau dawns yn yr ardal a nifer o gymdeithasau actio amatur ac operatig ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys Cwmni Theatr Ieuenctid Gorllewin Morgannwg, theatr ieuenctid sy'n cynnig profiadau o berfformio i bobl ifanc rhwng 13 ac 21 oed yn ardal Gorllewin Morgannwg. Nod y gwaith yw ehangu gwybodaeth myfyrwyr am destun dramatig drwy ganolbwyntio ar gynyrchiadau ieuenctid 'poblogaidd', llai traddodiadol. Mae'r theatr ei hun yn falch o greu gwaith i amrywiaeth o leoliadau ar draws y siroedd, gan amrywio o ganolfannau'r celfyddydau i ysgolion a manau awyr agored.

• • • • •



Mae gan CNPT gyfoeth o asedau hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol, yn enwedig o ran hanes diwydiannol yr ardal ym meysydd glo, haearn, dur a chopr. Mae gan yr ardal hefyd lawer o olion archaeolegol hŷn sy'n dyddio'n ôl cyn yr oes Rufeinig. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig o'r ardal sy'n dangos natur leol arbennig. Mae Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 yn cynnwys nifer o amcanion sy'n cynnwys diogelu a gwella treftadaeth hanesyddol ac amgylchedd adeiledig y fwrdeistref sirol er mwyn parchu natur leol arbennig yr ardal.

Mae tref Castell-nedd yn cadw cymeriad tref farchnad draddodiadol, ond mae cymeriad y rhan fwyaf o drefi a phentrefi eraill y fwrdeistref sirol yn tarddu o dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal, o lofeydd a gweithfeydd metel y chwyldro diwydiannol cynnar hyd at ddiwydiannau dur a phetro-gemegol yr 20fed ganrif. Mae amrywiaeth o gyrchfannau sy'n cydnabod treftadaeth hanesyddol yr ardal a diogelir y rhan fwyaf ohonynt gan bolisiau cenedlaethol. Yn y fwrdeistref sirol, ceir y canlynol:

- 2 Dirwedd Ddynodedig o Ddiddordeb Hanesyddol
- 6 Pharc a Gardd Hanesyddol
- 6 Ardal Gadwraeth
- 92 o Henebion
- 394 o Adeiladau Rhestredig

Ar draws y fwrdeistref sirol, ceir hefyd lawer o enghreifftiau o adeiladau sy'n chwarae rhan bwysig wrth ddiffinio cymeriad lleoedd, ond nid ydynt yn deilwng o gael eu cynnwys yn y rhestr statudol o adeiladau o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol.

Mae'r cyngor wedi gwneud ymrwymiad yn ei gynllun corfforaethol, "Ymateb i'r Her" 2016-2019, i ddefnyddio cyllid i adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ac adeileddau sydd o bwys lleol er mwyn galluogi adeiladau pwysig, hanesyddol neu restredig a henebion i gael eu symud o'r gofrestr adeiladau mewn perygl.

Crybwyllwyd treftadaeth gan 23% o bobl a gymerodd ran yn yr ymarfer o ran ystyr lles diwylliannol ac adlewyrchir hyn yn y data canlynol a ddarparwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015:

- Roedd 58% o bobl sy'n byw yn CNPT wedi ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru yn ystod y 12 mis cyn 2014-2015, a oedd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 59%.







Mae ardal CNPT wedi'i chysylltu'n draddodiadol â chymunedau diwydiannau trwm a mwyngloddio; fodd bynnag, mae amrywiaeth ac ansawdd bioamrywiaeth anghredadwy'n bodoli yma. Mae daeareg, daearyddiaeth a hydroleg y fwrdeistref sirol yn galluogi llawer o wasanaethau ecosystem pwysig i weithio a gwella ein bywydau. Rhai enghreifftiau:

- Mawndiroedd a chorsydd – mae pridd mawn yn dal ac yn storio carbon deuocsid o'r atmosffer y gellir eu cynnal yn y pridd yn barhaol pan fo'r pridd mewn cyflwr da.
- Morfa heli ar yr arfordir – sy'n helpu i wasgaru tonnau a llanwau uchel er mwyn atal llifogydd ac erydiad.
- Gorlifdiroedd yn y cymoedd – sy'n helpu i wasgaru dŵr pan fo glaw trwm, gan atal llifogydd ar waelod yr afon.
- Glaswelltiroedd llawn rhywogaethau – sy'n cynnig cynefin hanfodol a chysylltedd i beillwyr a bwyd ar gyfer da byw.
- Coetiroedd – sy'n helpu i lanhau llygryddion o'r aer, lliniaru llifogydd, gan leihau effaith ardaloedd mwy gwresog mewn amgylcheddau trefol, darparu ocsigen a nwyddau pren.

Mae'r cynefinoedd amrywiol hefyd yn cynnig cyfleoedd swyddi, yn enwedig yn y sector twristiaeth lle mae ardal CNPT yn adnabyddus am raeadrau, parciau gwledig, glan môr a gweithgareddau hamdden megis gwersylla moethus a beicio mynydd. Mae hygyrchedd yr adnoddau hyn ledled y fwrdeistref sirol yn darparu cyfleoedd i wella iechyd a lles, er enghraifft, cerdded a gweithgareddau awyr agored eraill.

Ceir nifer o safleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur, gan gynnwys dynodiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

- 3 Ardal Gadwraeth Arbennig
- 1 Safle Ramsar (gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol)
- 20 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- 1 Warchodfa Natur Genedlaethol
- 5 Gwarchodfa Natur Leol
- Yn ogystal, ceir nifer o safleoedd lleol o bwysigrwydd cadwraeth natur.



Mae'r cynefinoedd arbennig hyn yn cefnogi rhai casgliadau unigryw o fywyd gwyllt a rhywogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol megis bodaod y mêl, y fadfall gribog fwyaf a chorryn rafft y ffen. Mae hyd yn oed ein safleoedd tir llwyd yn cefnogi niferoedd o bwysigrwydd cenedlaethol o gornchwiglod sy'n bridio.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt yn CNPT gydag ymrwymiad llywiol i wella'r holl fioamrywiaeth yn CNPT. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot yn ymrwmo i ddiogelu a hybu, drwy waith partneriaeth a'r broses gynllunio, unrhyw rywogaeth neu gynefin a geir yn CNPT a warchodir gan gyfraith Ewrop neu'r DU, sydd ar restr Llywodraeth Cymru o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf yng Nghymru, sef rhestr Adran 7, neu sydd o bwysigrwydd lleol arbennig ac a ddewisir yn benodol gan Fforwm Bioamrywiaeth CNPT. Partneriaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yw Fforwm Bioamrywiaeth CNPT ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau, yn ogystal ag unigolion â diddordeb mewn bywyd gwyllt lleol a rheoli tir. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae'r cyngor, ynghyd â phob corff cyhoeddus arall, yn datblygu blaengynlluniau i nodi sut byddant yn cyflwyno eu dyletswydd yn benodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Bydd y rhain yn nodi cyfeiriad y cyrff unigol hyn yn y dyfodol a'r camau gweithredu penodol y byddant yn eu cymryd tuag at gadwraeth ein treftadaeth naturiol yn CNPT ar gyfer y dyfodol.



Ddechrau'r 20fed ganrif, roedd bron hanner poblogaeth Cymru'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae canran y Cymry Cymraeg wedi lleihau drwy gydol yr 20fed ganrif ac roedd cyn lleied â 18.7% ym 1991. Er i'r nifer gynyddu i 20.8% yn 2001, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd o ran addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion, mae ffigurau'r cyfrifiad diweddaraf (2011) yn awgrymu bod nifer y Cymry Cymraeg eto wedi lleihau, o 20.8% yn 2001 i 19% – gostyngiad o 1.8% (21,976).

Adlewyrchir hyn yn lleol lle cafwyd gostyngiad o 2.7% yn CNPT rhwng 2001 a 2011, o 18% (23,404) yn 2001 i 15.3% (20,698) yn 2011, sy'n cyfateb i 2,706 yn llai o Gymry Cymraeg. Serch hynny, roedd tueddiadau cadarnhaol o ran nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg. Roedd mwy o blant rhwng 3 a 4 oed (550) yn gallu siarad Cymraeg yn CNPT yn 2011 na 10 mlynedd ynghynt ac roedd mwy o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed (1,522) yn gallu siarad Cymraeg yn CNPT yn 2011 na 10 mlynedd ynghynt (1,424). Fodd bynnag, bu gostyngiad ymhlith grwpiau oedran eraill:

Oedran	2001	2011
5 - 15	6,129	5,610
20 - 44	5,048	5,003
45 - 64	4,924	3,929
65 - 74	2,353	1,935
75+	3,008	2,149

Mae gan bump o wyth ardal gymunedol CNPT ganran uwch o Gymry Cymraeg o'i gymharu â ffigur y fwrdeistref sirol, sef 15.3%.

Ceir ardaloedd yn y fwrdeistref sirol lle mae'r iaith yn rhan annatod o'r gymdeithas a lle ceir lefelau uchel iawn o Gymry Cymraeg. Dyffryn Aman a Chwm Tawe yw cadarnleoedd yr iaith, ac mae ardal Pontardawe a Chwm Dulais hefyd yn cynnwys cymunedau lle mae mwy o breswylwyr yn siarad yr iaith na chyfartaledd Cymru. Mae sgiliau Cymraeg ar eu gorau yng nghymunedau'r cymoedd hyn gyda chanran uchel o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Fodd bynnag, bu gostyngiad o ran canran a nifer y Cymry Cymraeg yn y cymunedau Cymraeg traddodiadol hyn rhwng 2001 a 2011.

Fel a nodir yn y tablau isod, mae'r ganran mewn rhai cymunedau megis Godre'r-Graig a Gwauncaegurwen wedi lleihau mwy na 10% o fewn degawd. Gellid dadlau mai'r ardal sy'n ymestyn o Drebanws i Gwmllynfell ac o'r Rhos i Wauncaegurwen yw'r un bwysicaf yn y fwrdeistref sirol o ran pwysigrwydd ieithyddol gan ei bod yn cynnwys rhai o'r canrannau uchaf o Gymry Cymraeg.

Gymuned	% Siaradwyr Cymraeg (2001)	% Siaradwyr Cymraeg (2011)
Cwmllynfell	68.2	58.8
Brynaman Isaf	68.1	60.8
Gwauncaegurwen	67.9	55.8
Ystalyfera	54.6	46.0
Trebanws	42.4	33.6
Godre'r-graig	41.5	30.1
Pontardawe	37.4	31.0
Yr Allt-wen	35.9	29.5

Er bod y canrannau'n adlewyrchiad da o nifer y Cymry Cymraeg, mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn datgan y gallant fod yn gamarweiniol fel mesur o ddichonoldeb yr iaith. Ar y llaw arall, mae niferoedd yn rhoi darlun mwy manwl o ran newidiadau demograffig. Dengys y tabl isod fod y niferoedd sy'n siarad yr iaith wedi lleihau'n sylweddol dros amser yng Nghwm Tawe a Dyffryn Aman. Er bod lefelau uchel o Gymry Cymraeg yn yr ardaloedd hyn o hyd, mae dirywiad yr iaith dros y blynyddoedd diwethaf bellach yn destun pryder yn y cymunedau hyn.

Gymuned	% Siaradwyr Cymraeg (2001)	% Siaradwyr Cymraeg (2011)	Newid
Cwmllynfell	741	669	-72
Brynaman Isaf	861	776	-85
Gwauncaegurwen	1,860	1,572	-288
Ystalyfera	614	1,339	-275
Trebanws	580	459	-121
Godre'r-graig	580	473	-107
Pontardawe	1,826	1,624	-202
Yr Allt-wen	800	664	-136

Mae gan addysg Gymraeg ddylanwad cryf ar fywiogrwydd yr iaith drwy ysgolion Cymraeg a thrwy ddsbarthiadau dysgu oedolion. Mae addysg Gymraeg yn rhan annatod a hanfodol o addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae fersiwn ddrafft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2017-2020 yn cydnabod bod iaith a diwylliant yn rhannau allweddol o hunaniaeth unigolyn ac mae'n nodi sut mae'r cyngor yn bwriadu cefnogi a datblygu addysg Gymraeg ymhellach mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae yna 11 ysgol Gymraeg, sef 10 o'r 54 ysgol gynradd ac un o'r wyth ysgol uwchradd. Ceir hefyd un ysgol Saesneg i ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed a dwy ysgol arbennig Saesneg. Mae rhan o Raglen Cyllido Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor yn cynnwys 7 cynllun ac mae 2 o'r rhain yn ymwneud â gwella addysg Gymraeg. Mae'r cyntaf yn darparu ar gyfer adeiladu safle newydd ar safle YG Ystalyfera a fydd yn trawsnewid addysg uwchradd ac yn sefydlu addysg gynradd mewn ysgol Gymraeg 'bob oed' i ddisgyblion rhwng 3 a 18 oed. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau addysg Gymraeg yng ngogledd y fwrdeistref sirol, a fydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr awdurdod cyfagos, Powys. Ategir y datblygiad hwn gan y gwaith adeiladu newydd arall sy'n sefydlu addysg Gymraeg (rhwng 11 a 18 oed) yn ne'r fwrdeistref sirol ar hen safle Ysgol Gyfun Sandfields.





## CHWARAEON A GWEITHGAREDDAU CORFFOROL



Yn ystod gwanwyn a haf 2015, cymerodd bron 1,000 o ysgolion ran yn Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru, sef yr arolwg mwyaf o'i fath yn y DU. Dangosodd canlyniadau'r arolwg gynnydd yng nghanran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol deirgwaith neu fwy'r wythnos o 40% yn 2013 i 48% yn 2015.

Yn ogystal, datgelodd yr arolwg fod:

- 93% o blant yn mwynhau addysg gorfforol.
- Roedd bechgyn (52%) yn dal i fod yn fwy tebygol na merched (44%) i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn rheolaidd; er bod y ffigurau ar gyfer y ddwy garfan wedi cynyddu, mae'r bwlch yn parhau'n sefydlog.
- Er y bu cynnydd yn y ganran a oedd yn cymryd rhan yn rheolaidd ym mhob grŵp ethnig, roedd 52% o blant du Prydeinig neu hil gymysg wedi gwirioni ar chwaraeon (gan gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol deirgwaith neu fwy'r wythnos ar gyfartaledd), o'i gymharu â 36% o blant Asiaidd a grwpiau ethnig eraill.

Tynnodd yr arolwg sylw hefyd at y ffaith bod plant a phobl ifanc:

- Ddwywaith yn fwy tebygol o wirioni ar chwaraeon os ydynt yn hyderus.
- Bum gwaith yn fwy tebygol o wirioni ar chwaraeon os ydynt yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol.
- Naw gwaith yn fwy tebygol o fwynhau addysg gorfforol 'yn fawr' os yw pobl yn gwrandao ar eu syniadau am chwaraeon ysgol bob amser.

Yn 2015, canran y plant a'r bobl ifanc (rhwng 3 ac 11 oed) a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o leiaf deirgwaith yr wythnos yn CNPT oedd 54.7%, a oedd yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, sef 48%.

Yn 2015, roedd gan Gastell-nedd Port Talbot y ganran uchaf o ddisgyblion mewn blynyddoedd 3 i 11 a oedd wedi gwirioni ar chwaraeon, y ganran uchaf o ddisgyblion a oedd yn cymryd rhan yn aml mewn chwaraeon allgyrsiol, a'r aelodaeth uchaf o glybiau chwaraeon (63.3%) ymysg y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dengys yr wybodaeth a gyflwynir yn y tabl isod fod cyfraddau cyfranogiad bechgyn ychydig yn uwch na chyfraddau cyfranogiad merched yn y ddau gategori oedran.



	pob Blynyddoedd 3 to 11	Blynyddoedd dynion 3 to 11	Blynyddoedd menywod 3 to 11	pob		dynion		menywod	
				blwyddyn 3 to 6	blwyddyn 7 to 11	blwyddyn 3 to 6	blwyddyn 7 to 11	blwyddyn 3 to 6	blwyddyn 7 to 11
Castell-nedd Port Talbot	54.7	58.2	51.2	52.1	56.8	55.6	60.2	48.6	53.3
Cymru	48.0	51.5	44.4	48.5	47.6	51.4	51.7	45.5	43.5

## AROLWG ADDYSG BELLACH



Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cynnal yr Arolwg Addysg Bellach, sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad mewn chwaraeon i fyfyrwyr dros 16 oed sydd mewn addysg bellach yng Nghymru. Yn 2015, roedd 44% o'r myfyrwyr oedd yn mynychu colegau Castell-nedd Port Talbot yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o leiaf 3 gwaith yr wythnos o'i gymharu â ffigur Cymru, sef 49%.

Roedd cyfraddau cyfranogiad ymhlith y rhai rhwng 16 a 19 oed yn uwch (46%) nag ymhlith y rhai dros 20 oed, ac yn gyffredinol roedd cyfraddau cyfranogiad dynion (50%) yn tueddu i fod yn uwch na chyfraddau menywod (37%).

## AROLWG AR OEDOLION EGNÏOL 2014



Yn ôl Arolwg ar Oedolion Egnïol 2014 (dros 15 oed), a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru, roedd oedran, rhyw, anabledd a lefel incwm i gyd yn cael effaith ar gyfraddau cyfranogiad er bod lle rydych yn byw'n llai pwysig. Ar draws holl ranbarthau Cymru, roedd mwy o Gymry Cymraeg (45%) 'wedi gwirioni ar chwaraeon' na phobl ddi-Gymraeg (39%).

Mae'r tabl isod yn nodi bod llai o oedolion (dros 15 oed) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd, yn cymryd rhan unwaith yr wythnos ac yn cymryd rhan deirgwaith yr wythnos neu fwy na chyfartaledd Cymru.

Datblygiad economaidd	Ddim yn cymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd	Cyfartaledd o unwaith yr wythnos	Tair gwaith yr wythnos neu fwy
Castell-nedd Port Talbot	45.1%	8.6%	38.0%
Cymru	38.4%	12.3%	40.5%

Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnal nifer o gyfleusterau chwaraeon a hamdden sy'n darparu ar gyfer pob oedran. O lwybrau beicio mynydd o'r radd flaenaf yng Nghwm Afan, y cwrs golff antur, y parc sglefrio, y pwll chwarae acwasplash a'r lle chwarae antur ar lan môr Aberafan, cyfleoedd marchogaeth ceffylau yn Nyffryn Aman ac amrywiaeth o lwybrau cerdded drwy goetiroedd, parciau ac ar hyd camlesi.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, ceir nifer o fannau chwarae dynodedig:

- Mae 126 o barciau (sy'n cynnwys 3 pharc gwledig a 123 o barciau a gerddi trefol ac addurnol a lleoedd chwarae) sy'n cynnwys cyfleusterau megis ardaloedd chwarae i blant, lawntiau bowllo, caeau chwaraeon, rampiau sglefrfyrdio a mannau agored.
- 23 o ardaloedd gemau aml-ddefnydd (MUGA) ac ardaloedd chwaraeon ar olwynion.

Yn ogystal, ceir nifer o fannau lle mae'n bosib chwarae:

- 433 o fannau gwyrdd (mannau anffurfiol, meysydd pentrefi)
- 2,026 o fannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol (tir comin, glaswelltiroedd/prysgdiroedd, coetiroedd).

Mae 88% o'r mannau chwarae awyr agored yng Nghastell-nedd Port Talbot yn hygyrch i blant o bob gallu.

Mae caeau artiffisial hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod pobl yn actif. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, ceir dau gae 3G maint llawn (mewn caeau 3G, cefnogir y 'glaswellt' artiffisial gan haen denau o dywod ar y gwaelod a'i fewnlenwi â gronynnau rwber). Ceir hefyd bedwar cae artiffisial a lenwir â thywod neu ddŵr a 10 o gaeau artiffisial llai neu 5 cwrt 5-bob-ochr/carped.

Mae Hamdden Celtic yn rheoli nifer o ganolfannau hamdden ar draws y fwrdeistref sirol. Maent yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys dosbarthiadau ffitrwydd, ystafelloedd ffitrwydd ac iechyd, ystafelloedd pwysau, pyllau nofio, chwaraeon rased a chwaraeon tîm awyr agored sy'n addas i bob oedran a gallu.

- Canolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan
- Canolfan Hamdden Castell-nedd
- Canolfan Chwaraeon Castell-nedd
- Canolfan Hamdden Pontardawe
- Pwll Nofio Pontardawe
- Canolfan Hamdden Cwm Nedd







Yng Nghastell-nedd Port Talbot, ceir 25 o glybiau ieuenctid, 12 o glybiau ar ôl ysgol, ac 1 clwb chwarae mynediad agored. Mae traean o'r lleoliadau chwarae dan oruchwyliaeth (gan gynnwys gofal plant) yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Mae O Gam i Gam, Interplay a'r Ganolfan Gweithgareddau Anghenion Arbennig yn darparu cyfleoedd i blant ag anableddau.

Nododd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 CNPT nifer o rwystrau gwahanol i chwarae:

- Canfyddiadau plant a theuluoedd na ellir defnyddio manau ar gyfer chwarae.
- Mae 36 o'r 42 o wardiau yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi nodi diffyg darpariaeth chwarae i blant. Darpariaeth gyfyngedig i blant hŷn (dros 10 oed).
- Byddai'n well gan blant Teithwyr gael man chwarae diogel ar safleoedd.
- Gall plant ag anableddau deimlo'n anniogel neu nid oes croeso iddynt yn y darpariaethau chwarae presennol.
- Cyfyngir cyfarpar chwarae ar gyfer plant ag anableddau i leoedd chwarae sy'n gyrchfannau (lleoedd chwarae mawr sy'n gwasanaethu poblogaeth fawr yn hytrach na chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol).
- Dywedodd 53% o rieni a 24% o blant fod diogelwch ffyrdd yn rhwystr i chwarae mwy.





## GWIRFODDOLI



Crybwyllwyd gwirfoddoli gan nifer o bobl a gymerodd ran yn yr ymarfer cynnwys fel ffactor a allai wella lles diwylliannol.

Yn ôl adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Gwirfoddoli yng Nghymru 2015, roedd 70.7% o oedolion yng Nghymru wedi gwirfoddoli'n ffurfiol (gyda sefydliad) neu'n anffurfiol (fel unigolyn) yng Nghymru yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg. Mae hyn yn cyfateb i 1,793,749 o wirfoddolwyr, y mae 1,626,599 wedi gwirfoddoli'n anffurfiol ac mae 940,533 wedi gwirfoddoli'n ffurfiol.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 52,000 o wirfoddolwyr ffurfiol yn CNPT ac mae'r math mwyaf cyffredin o wirfoddoli gyda sefydliad, gan helpu i gynnal popeth o weithgareddau i blant yn yr ysgol ac y tu allan iddi, i chwaraeon ac ymarfer corff, iechyd a gofal cymdeithasol, a grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd. Nifer y gwirfoddolwyr anffurfiol yn CNPT ar hyn o bryd yw 71,168 a'r mathau mwyaf cyffredin o wirfoddoli anffurfiol yw gwneud cymwynasau, gofalu am blant, cadw mewn cysylltiad â pherson sy'n gaeth i'r tŷ, darparu cludiant a rhoi cyngor. Mae llawer o fathau eraill o wirfoddoli, gan gynnwys rhith-wirfoddoli, meicro-wirfoddoli, gwirfoddoli a gefnogir gan gyflogwyr, gwirfoddoli ar gyfer achrediad, interniaethau, gwirfoddoli fel profiad cysylltiedig â gwaith, a gwirfoddoli dinesig.

## CYMUNED



Yn CNPT, crybwyllodd llawer o bobl a oedd yn bresennol yn y gweithdai cynnwys fod ymdeimlad o berthyn yn cyfrannu at les diwylliannol, a adlewyrchir yn y ffigurau isod:

### YN CNPT

- Mae 92% o breswylwyr yn teimlo bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol, y ganran uchaf ymysg yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 82%.
- Mae 82% o breswylwyr yn teimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda (sy'n uwch na ffigur Cymru, sef 79%), ac mae 86% o breswylwyr yn teimlo bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth o'i gymharu â ffigur Cymru, sef 79%.



Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015





Yn CNPT, roedd canran y bobl a oedd yn nodi eu bod yn Gristnogion wedi lleihau o 72% yn 2001 i 58% yn 2011. Yn ystod yr un cyfnod, cafwyd cynnydd amlwg hefyd yng nghanran y bobl a oedd yn datgan 'nad oedd unrhyw grefydd' ganddynt, o 19% yn 2001 i 34% yn 2011 (6). Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa ar draws Cymru.

Cafodd y rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru eu geni yng Nghymru; mae'r nifer hwn yn lleihau'n araf dros amser ond mae'n debygol o effeithio ar ddiwylliant yn lleol. Yn CNPT, roedd canran y bobl a oedd wedi'u geni yng Nghymru wedi lleihau o 90% yn 2001 i 87% yn 2011 (6).

Fel rhan o'r asesiad hwn, gofynnwyd i grwpiau gwahanol o bobl a oedd lles diwylliannol yn wahanol iddynt wrth fyw yn CNPT ai peidio. Ar gyfer lles diwylliannol, cawsom adborth gan dri grŵp.

Wrth i ni siarad â phlant a phobl ifanc, roeddent o'r farn fod y syniad o les diwylliannol yn arbennig o anodd i'w ddiffinio. Mewn un ysgol gynradd, disgrifiodd disgyblion gysylltiadau â'r henoed, a chanu mewn cartref lleol i'r henoed ac yn yr ysbyty lleol fel pethau sy'n cynyddu lles y plant a'r preswylwyr hŷn.

Cyfeiriodd pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt neu sy'n darparu gofal a chefnogaeth at fynediad i wasanaethau yn y gymuned megis hamdden ac addysg.

Dywedodd pobl hŷn fod y graddau y maent yn teimlo eu bod yn rheoli eu bywydau o ddydd i ddydd yn ganolog i les diwylliannol, gan gynnwys eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac yn ymddiddori ynddynt. Cyfeiriodd pobl hŷn hefyd at hanes, treftadaeth ac ymdeimlad o le fel pethau sy'n cyfrannu at les diwylliannol, yn ogystal â defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis llyfrgelloedd, pyllau nofio, y theatr a dosbarthiadau. Roedd defnyddio'r gwasanaethau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfranogaeth gymunedol a datblygiad personol ar gyfer pobl hŷn. Tynnodd pobl hŷn sylw hefyd at wirfoddoli fel rhywbeth sy'n cyfrannu at les diwylliannol gan ei fod yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag, mynegodd pobl hŷn bryderon am y toriadau i lyfrgelloedd a gweithgareddau hamdden, gan fod rhai mewn perygl o gael eu cau.



(6) ONS Census 2011





## YOU TOLD US



Yn ystod y gweithdai, roedd y cyfranogwyr yn aml yn darganfod mai llesiant diwylliannol oedd yr elfen anoddaf o lesiant i'w dychmygu a'i mynegi oherwydd ehangder yr ystyr. Roedd y rhestr o weithgareddau a gwasanaethau yr oedd pobl yn eu gweld fel rhai sy'n cefnogi llesiant diwylliannol yn helaeth, er y gellid grwpio llawer o'r rhain yn bedair thema allweddol<sup>1</sup>.

Dengys canlyniadau'r arolwg ar-lein yn Ffigur 1 fod pobl yn fwyaf tebygol o feddwl am lesiant diwylliannol yn nhermau y celfyddydau, theatr, llenyddiaeth etc.<sup>2</sup> (yn cyfrif am 30 y cant o ymatebion, 35), ac wedyn treftadaeth, iaith, traddodiadau a chredoau etc.<sup>3</sup> (25 y cant, 29), chwaraeon a hamdden (15 y cant, 17) ac addysg a dysgu (10 y cant, 12 o ymatebwyr).

Roedd ymatebion eraill nad oedd yn ffitio o fewn y categorïau a ddiffiniwyd yn cynnwys teimladau ynghylch bod yn rhan o'r gymuned leol, er enghraifft:

“Chwarae rhan yn y gymuned leol.” (Ymatebydd i'r arolwg)

O ran pethau sy'n cyfrannu at lesiant diwylliannol unigol yn CNPT, roedd barn ymatebwyr yr arolwg yn amrywio'n sylweddol. Roedd themâu allweddol yn cynnwys bod cyfleoedd ar gael i ddefnyddio cyfleusterau diwylliannol, gwirfoddoli a dysgu; er enghraifft:

“Cyfle dysgu i fynd ar gyrsiau cerddoriaeth i oedolion ...” (Ymatebydd i'r arolwg)

Pan ofynnwyd pa ddau ffactor a fyddai'n gwella llesiant diwylliannol, cyfeiriodd un rhan o bump o'r arolwg (19 y cant, 24) at ffactorau fel profi mwy o ddiwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, teimlai un ymatebydd y byddai “dysgu siarad Cymraeg a [chael] mwy o amser i chwarae rhan mewn cefnogi'r gymuned” (Ymatebydd i'r arolwg) yn helpu gwella llesiant diwylliannol.

Fel rhan o'r asesiad hwn, gofynnwyd i grwpiau gwahanol o bobl a oedd lles diwylliannol yn wahanol iddynt wrth fyw yn CNPT ai peidio. Ar gyfer lles diwylliannol, cawsom adborth gan dri grŵp.

Wrth i ni siarad â phlant a phobl ifanc, roeddent o'r farn fod y syniad o les diwylliannol yn arbennig o anodd i'w ddiffinio. Mewn un ysgol gynradd, disgrifiodd disgyblion gysylltiadau â'r henoed, a chanu mewn cartref lleol i'r henoed ac yn yr ysbyty lleol fel pethau sy'n cynyddu lles y plant a'r preswylwyr hŷn.

Cyfeiriodd pobl y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt neu sy'n darparu gofal a chefnogaeth at fynediad i wasanaethau yn y gymuned megis hamdden ac addysg.

Dywedodd pobl hŷn fod y graddau y maent yn teimlo eu bod yn rheoli eu bywydau o ddydd i ddydd yn ganolog i les diwylliannol, gan gynnwys eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac yn ymddiddori ynddynt. Cyfeiriodd pobl hŷn hefyd at hanes, treftadaeth ac ymdeimlad o le fel pethau sy'n cyfrannu at les diwylliannol, yn ogystal â defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis llyfrgelloedd, pyllau nofio, y theatr a dosbarthiadau. Roedd defnyddio'r gwasanaethau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfranogaeth gymunedol a datblygiad personol ar gyfer pobl hŷn. Tynnodd pobl hŷn sylw hefyd at wirfoddoli fel rhywbeth sy'n cyfrannu at les diwylliannol gan ei fod yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag, mynegodd pobl hŷn bryderon am y toriadau i lyfrgelloedd a gweithgareddau hamdden, gan fod rhai mewn perygl o gael eu cau.



## SUT BYDD TUEDDIADAU'R DYFODOL YN EFFEITHIO AR LES DIWYLLIANNOL?

• • • • •

---

### Y CELFYDDYDAU A THREFTADAETH

• • • • •

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae swm y cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau a gwasanaethau diwylliannol ar draws CNPT wedi lleihau a disgwylir i'r cyllid barhau i gael ei leihau neu o leiaf barhau'n sefydlog yn y tymor canolig.

---

### Y GYMRAEG

• • • • •

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y bydd lles yr iaith yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newidiadau demograffig a'r effaith negyddol y gall mewnfudo ac ymfudo eu cael ar y Gymraeg; er enghraifft, nododd Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod nifer y Cymry Cymraeg dros 75 oed wedi gostwng o 3,008 (25.4%) i 2,149 (17.6%) rhwng 2001 a 2011. Ynghyd â'r ffaith bod y genhedlaeth iau sy'n ymfudo o'r fwrdeistref sirol yn fwy tebygol o fod yn Gymry Cymraeg na'r bobl sy'n mewnfudo, gallai'r rhain fod yn ddangosyddion o ran pam roedd canran y Cymry Cymraeg yn CNPT wedi lleihau rhwng 2001 a 2011. Mae'n debygol o barhau i leihau yn y dyfodol oherwydd ffactorau sy'n cynnwys: diffyg trosglwyddo'r iaith yn y cartref; diffyg hyder defnyddwyr; priodasau ieithoedd cymysg; a mwy o farwolaethau na genedigaethau ymhlith teuluoedd Cymraeg.

---

### GWIRFODDOLI

• • • • •

Mae nifer o heriau i wirfoddoli yn CNPT yn y dyfodol, gan gynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr (gan gynnwys darparu treuliau i wirfoddolwyr), argaeledd cyfleoedd a lleoliadau gwirfoddoli addas, mwy o alw gan gyrff corfforaethol mawr i'w staff eu hunain wirfoddoli, argaeledd y cymysgedd cywir o sgiliau, a gallu sefydliadau sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr i roi'r hyfforddiant angenrheidiol i wirfoddolwyr.

• • • • •



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS  
CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

